



Joint Council for
Qualifications

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

Gwybodaeth i ganolfannau – 2018/19

Trefniadau ar gyfer myfyrwyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu hanner ffordd drwy hen gwrs TAG Safon Uwch unedol (ar ôl cwblhau a derbyn ardystiad ar gyfer dyfarniad TAG UG)

Ni ellir trosglwyddo manyleb TAG UG llinol newydd i hen fanyleb TAG Safon Uwch unedol.

i) Cyflwyniad

Efallai y bydd ymgeiswyr TAG UG sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall neu sydd, am resymau eraill, yn gorfod newid eu rhaglen astudio rhan o'r ffordd drwy gwrs unedol TAG UG yn gymwys i drosglwyddo dyfarniad TAG UG rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu. **Mae'n rhaid i'r manylebau gael yr un teitlau pwnc, o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r rheoleiddwyr a'r Cyd-gyngor Cymwysterau.**

Mae trosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu yn broses eithriadau cofrestru. **Nid yw'n broses gofrestru awtomatig.** Mae'n rhaid gwneud cais bob amser i'r corff dyfarnu sy'n derbyn; y corff dyfarnu fydd yn derbyn 2 gofrestriad TAG U2. Mae'n rhaid llenwi ffurflen y CGC *Cais i drosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu* bob amser.

Rhaid gwneud cais gan ddefnyddio ffurflen Trosglwyddo Credyd y CGC erbyn 21 Hydref 2018 ar y fan hwyraf ar gyfer ceisio ardystiad Safon Uwch yng nghyfres arholiadau Mehefin 2019. Mae'n rhaid i ganolfannau lynu at y dyddiad cau o 21 Hydref 2018. Nid yw'n dderbyniol cyflwyno ceisiadau ar ôl y dyddiad hwn, h.y. drwy gydol blwyddyn academiaidd 2018/19 ac ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ym mis Awst 2019.

Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 21 Hydref 2018 fan hwyraf er mwyn rhoi tawelwch meddwl i ganolfannau fod ymgeisydd yn dilyn y cwrs cywir a bod y manylebau'n cyd-fynd. Os yw'r corff dyfarnu'n nodi nad yw'r trosglwyddo'n dderbyniol yna mae digon o amser i'r ymgeisydd newid cyrsiau.

Gallwch lawrlwytho fersiwn electronig o ffurflen gais Trosglwyddo Credyd y CGC oddi ar wefan y CGC: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/entries/gce-entry-information-incltransfer-of-credit>

Bydd y corff dyfarnu'n prosesu'r cais ac yn rhoi ymateb ysgrifenedig i'r ganolfan.
Ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gyfathrebu dros y ffôn.

Nid yw trefniadau trosglwyddo credyd TAG UG yn berthnasol i'r rhai sydd eisoes wedi ennill dyfarniad TAG UG. Yr unig eithriad yw lle mae ymgeisydd eisoes wedi ennill dyfarniad Safon Uwch Mathemateg a'i fod yn dymuno ennill dyfarniad Safon Uwch Mathemateg Bellach.

Mae'r trosglwyddiadau TAG Safon Uwch sy'n dderbyniol fel arfer wedi'u rhestru yn:

Atodiad 1, tudalen 6, yn y ddogfen hon ar gyfer hen gymwysterau Cymhwysol TAG a TAG Mathemateg ac Atodiad 2, tudalen 8, yn y ddogfen hon ar gyfer hen fanylebau Safon Uwch unedol eraill.

(ii) Ystyriaethau cyffredinol – hen fanylebau TAG unedol

- Mae trosglwyddo rhwng manylebau TAG Cymhwysol yn dilyn yr un rheolau â'r rhai sy'n berthnasol i fanylebau TAG. **Ni chaniateir trosglwyddo o fanylebau TAG Cymhwysol i fanyleb TAG ac i'r gwrthwyneb.**
- Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, yn seiliedig ar y rheswm dros drosglwyddo'r dyfarniad TAG Safon Uwch, sut mae'r manylebau'n cydweddu a chyflawni gofynion meini prawf y pwnc.
- Mae derbyn **hen ddyfarniad TAG UG unedol** yn amodol ar y ganolfan newydd yn sicrhau bod opsiynau uned TAG U2 yn cael eu dewis mewn ffordd sy'n atal ail-adrodd cynnwys pwnc. **Nid yw'n dderbyniol ail-adrodd cynnwys pwnc.** Gallai fod yn angenrheidiol mewn rhai achosion i'r corff dyfarnu newydd nodi fod yn rhaid dilyn opsiynau penodol ar ôl trosglwyddo, er mwyn bodloni meini prawf y pwnc.
- **Hen gymwysterau TAG UG unedol cyflawn yn unig y gellir eu trosglwyddo.** Mae'n **rhaidd** i'r cymhwyster UG fod wedi'i ardystio cyn trosglwyddo.
- Lle mae ymgeisydd yn dymuno ailsefyll hen unedau TAG UG, (lle mae ar gael ym Mehefin 2019) mae'n rhaid i'r ganolfan gyflwyno ffurflen Trosglwyddo Credyd y CGC – <http://www.jcq.org.uk/exams-office/entries/gce-entry-information-incltransfer-of-credit> erbyn 21 Hydref 2018 ar y fan hwyraf. Mae'n rhaid i'r ganolfan nodi'r gyfres ar y ffurflen, h.y. Mehefin 2019, pan fydd yr ymgeisydd yn sefyll yr unedau UG.
- Lle mae ymgeisydd yn ailsefyll hen unedau TAG UG gyda'r corff dyfarnu gwreiddiol, yn dilyn ardystiad UG mewn cyfres arholiadau flaenorol, mae'n rhaid iddo ef/iddi hi ennill ei ddyfarniad(au) UG eto. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y marc cyfanswm unffurf gorau ar gael i'w drosglwyddo.
- O ystyried y bydd ailsefyll hen unedau TAG UG yn digwydd yn yr un gyfres ag y gwnaed cais am ardystiad Safon Uwch, (h.y. cyfres Mehefin 2019) mae'n debyg y bydd cyhoeddi'r canlyniad Safon Uwch yn cael ei oedi. (Ni ellir prosesu'r trosglwyddiad nes bydd canlyniad ailsefyll yr uned UG ar gael). Gallai hyn effeithio ar ymgeisydd sydd yn disgwyl am ganlyniadau Safon Uwch er mwyn iddo/iddi dderbyn cynnig am le mewn Prifysgol.
- Lle mae ymgeisydd wedi ailsefyll hen uned TAG UG yn yr un gyfres arholiadau ag y mae wedi ceisio ardystiad Safon Uwch, ac wedyn yn gwneud cais i'r hen uned TAG UG gael ei hail-farcio, **mae'n rhaid rhoi gwybod i'r corff dyfarnu sydd wedi cyhoeddi'r dyfarniad Safon Uwch dros dro.** Mae'n **rhaidd** rhoi gwybod i'r corff dyfarnu gan y gallai canlyniad adolygu'r marciau effeithio ar y dyfarniad Safon Uwch a gyhoeddwyd yn rhagarweiniol.
- Nid yw'n bosibl trosglwyddo cydrannau o gymhwyster Bagloriaeth Rhyngwladol.
- Yn yr un modd, nid yw'n bosibl trosglwyddo cymhwyster UG cyflawn a ddyfarnwyd gan Arholiadau Rhyngwladol Caergrawnt (CIE) neu gymwysterau Rhyngwladol a ddyfarnwyd gan AQA a Pearson.

(iii) Cymhwysedd ymgeisydd - hen fanylebau TAG unedol

- Mae'r canlynol yn rhesymau derbyniol i ymgeisydd drosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG Safon Uwch rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu:
 - o Ymgeisydd sydd yn trosglwyddo hanner ffordd drwy hen gwrs dyfarniad TAG UG unedol o un ganolfan i'r llall lle mae manyleb wahanol yn cael ei dysgu.
 - o Ymgeisydd sy'n newid cwrs am reswm na ellir ei osgoi mewn canolfan sy'n cynnwys symud i **hen fanyleb Safon Uwch unedol wahanol**.
 - o Ymgeisydd sy'n dychwelyd ar ôl seibiant (e.e. blwyddyn allan) i sefyll hen gymhwyster dyfarniad TAG UG unedol mewn canolfan arall lle mae manyleb wahanol yn cael ei dysgu, yn amodol ar argaeledd y fanyleb.
 - o Ymgeisydd sy'n dychwelyd i ganolfan ar ôl absenoldeb hir (e.e. am resymau meddygol) sy'n sylweddoli fod y ganolfan wedi newid yr hen fanyleb Safon Uwch unedol oedd yn cael ei chynnig yn ystod ei absenoldeb, yn amodol ar argaeledd y fanyleb.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y cytunir i garfan gyfan drosglwyddo. Bydd hyn yn ôl disgresiwn y corff dyfarnu sy'n derbyn ac os yw'r trosglwyddiadau'n cydweddu â gofynion meini prawf y pwnc yn unig. Ni fyddwn yn derbyn trosglwyddo carfan newydd am y rheswm fod aelod newydd o staff wedi ymuno â'r coleg, sydd wedi cael profiad o ddysgu manyleb Safon Uwch corff dyfarnu arall. **Ni ystyrir fod trosglwyddo rhwng manylebau er budd gorau'r ymgeiswyr.**

- Mae trosglwyddo credyd yn bosibl rhwng manylebau sydd wedi'u hysgrifennu ar gyfer yr un meini prawf yn unig. Nid yw'r broses trosglwyddo credyd yn berthnasol i'r manylebau TAG Safon Uwch llinol newydd a gyflwynwyd i'w haddysgu am y tro cyntaf o 1 Medi 2015 ymlaen.

Mae'r cymwysterau UG newydd yn gymwysterau unigol ac nid ydynt yn cyfrannu tuag at ddyfarniadau Safon Uwch.

(iv) Sut i wneud cais

- Rhaid gwneud cais gan ddefnyddio ffurflen Trosglwyddo Credyd y CGC <http://www.jcq.org.uk/exams-office/entries/gce-entry-information-incltransfer-of-credit> erbyn 21 Hydref 2018 fan hwyraf ar gyfer ceisio ardystiad Safon Uwch yng nghyfres arholiadau Mehefin 2019.
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd a'r swyddog arholiadau lofnodi'r ffurflen. Bydd peidio â gwneud hyn yn arwain at ddychwelyd y ffurflen at y ganolfan. (Gweler Atodiad 3, tudalen 10 am ddarluniad o ffurflen orffenedig). Mae manylion cyswllt cyrff dyfarnu wedi'u cynnwys ar dudalen 5.
- Mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais trosglwyddo credyd yn llawn. Mae'n rhaid nodi gwybodaeth am unrhyw opsiynau a astudiwyd ar lefel UG ac i'w hastudio ar U2 ar y ffurflen. Bydd peidio â darparu gwybodaeth o'r fath yn arwain at ddychwelyd y ffurflen at y ganolfan a bydd yn achosi oedi wrth brosesu'r cais.
- Mae'n rhaid gwneud cais hyd yn oed os yw'r ymgeisydd yn bwriadu ailsefyll yr unedau UG yn yr hen fanyleb TAG Safon Uwch unedol. Nid yw bob amser yn bosibl cytuno ar drosglwyddiadau arfaethedig ac mae er budd gorau'r ymgeisydd a'r ganolfan i wybod cyn gynted â phosibl p'un a yw trosglwyddiad yn annerbyniol.
- Mae'n rhaid i ganolfan sy'n derbyn ymgeisydd sy'n trosglwyddo hen gymhwyster TAG UG unedol cyflawn rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu gadw'r rhif UCI a roddwyd gan y ganolfan wreiddiol bob amser. Dim ond lle mae gwybodaeth gofrestru lawn a chywir wedi'i chyflwyno gan y ganolfan sy'n derbyn y gall y corff dyfarnu sy'n derbyn brosesu trosglwyddiadau. Mae'r manylion angenrheidiol i'w gweld ar ddatganiad canlyniadau rhagarweiniol ymgeisydd.
- Bydd y corff dyfarnu sy'n derbyn yn gwneud cais am fanylion cymhwyster/cymwysterau UG yr ymgeisydd gan y corff dyfarnu gwreiddiol.

Dylid cyflwyno copi o ddatganiad o ganlyniadau rhagarweiniol ymgeisydd gyda'r ffurflen gais trosglwyddo credyd cyflawn.

Mae'n rhaid i'r corff dyfarnu sy'n derbyn fod yn dawl eu meddwl bod yr amodau a osodwyd ar gyfer trosglwyddo cymhwyster UG cyflawn wedi'u bodloni. Bydd cyfanswm y marc unffurf mae'r ymgeisydd wedi'i ennill drwy astudio set gyflawn o unedau UG, sydd wedi'u hardystio, yn cael eu defnyddio fel credyd tuag at Safon Uwch yn y fanyleb sy'n cael ei sefyll ar U2.

- Nid yw'n bosibl cael ystyriaeth arbennig ar sail y trosglwyddo'n unig.
- Ni fydd tystysgrifau Safon Uwch a datganiadau canlyniadau rhagarweiniol ymgeiswyr yn nodi bod unrhyw drosglwyddiad wedi digwydd.

(v) **Manylion cyswllt y corff dyfarnu**

AQA Adran Gofrestriadau (Entries Department) Devas Street Manceinion M15 6EX Ffôn: 0161 455 5482 E-bost: transferofcredit@aca.org.uk Gwefan: www.aqa.org.uk	CCEA Adran Gofrestriadau 29 Clarendon Road Belffast BT1 3BG Ffôn: 02890 261 200 Ffacs: 02890 261 289 Gwefan: www.ccea.org.uk
OCR Gweithrediadau Syndicate Buildings 1 Hills Road Caergrawnt CB1 2EU Ffôn: 01223 553 600 Ffacs: 01223 552 646 E-bost: OCRASTransfers@ocr.org.uk Gwefan: www.ocr.org.uk	Pearson Fretwell Road Parc Busnes Hellaby Rotherham S66 8HN Ffôn: 01709 704810 E-bost: TransferofCredit@pearson.com Gwefan: www.pearson.com
CBAC Adran Gofrestriadau 245 Rhodfa'r Gorllewin Caerdydd CF5 2YX Ffôn: 02920 265193 Ffacs: 02920 562944 Gwefan: www.cbac.co.uk	

Mae'n rhaid cyfeirio'r holl ymholiadau at y corff dyfarnu TAG U2 perthnasol.



Joint Council for
Qualifications

**Hen Gymwysterau TAG Cymhwysol a TAG Mathemateg
Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu hanner ffordd drwy hen gyrsiau TAG Safon Uwch unedol**

Rhestrir pynciau sy'n cael eu cynnig gan fwy nag un corff dyfarnu ar **dudalen 7**.

Mae trosglwyddo **hen ddyfarniad TAG UG unedol** yn broses eithriadau cofrestru. Nid yw'n broses cofrestru awtomatig ac mae'n **rhaidd** gwneud cais bob amser i'r corff dyfarnu sy'n derbyn. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n bosibl gwneud trefniadau i drosglwyddo rhwng gyrff dyfarnu. Fodd bynnag, mae eithriadau wedi'u nodi.

Mae'n rhaid gwneud cais i drosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol i'r corff dyfarnu sy'n derbyn erbyn 21 Hydref 2018 fan hwyraf i'r ymgeiswyr hynny sy'n ceisio ardystiad TAG Safon Uwch ym mis Mehefin 2019.

D.S. Lle cyfeirir at fanylebau Edexcel, mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel manylebau Pearson Edexcel.

Pwnc	Cynigir gan	Trosglwyddo	Nodiadau
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL	OCR a CBAC* *Canolfannau yng Nghymru yn unig	- Mae OCR yn derbyn y tair uned UG craidd fel cymhwyster UG unigol - Efallai na fydd CBAC yn derbyn trosglwyddiadau, gan ddibynnu ar y cyfuniad o unedau	Bydd trosglwyddiadau sy'n cynnwys unedau dewisol yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol er mwyn osgoi cynnwys pwnc sy'n gorgyffwrdd. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr sefyll unedau penodol neu unedau ychwanegol hyd yn oed. Bydd trosglwyddiadau sy'n cynnwys unedau dewisol yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol er mwyn osgoi cynnwys pwnc sy'n gorgyffwrdd.
TGCH Gymhwysol	OCR a CBAC	- Mae OCR yn derbyn y tair uned UG craidd fel cymhwyster UG unigol - Efallai na fydd CBAC yn derbyn trosglwyddiadau, gan ddibynnu ar y cyfuniad o unedau (mae manyleb CBAC yn cynnwys UG dwy uned ac UG dwyradd/Safon Uwch pedair uned)	Bydd trosglwyddiadau sy'n cynnwys unedau dewisol yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol er mwyn osgoi cynnwys pwnc sy'n gorgyffwrdd. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr sefyll unedau penodol neu unedau ychwanegol hyd yn oed. Bydd trosglwyddiadau sy'n cynnwys unedau dewisol yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol er mwyn osgoi cynnwys pwnc sy'n gorgyffwrdd.
Mathemateg†	AQA, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC	Mae'r holl drosglwyddiadau'n dderbyniol mewn egwyddor	Mae'n <u>rhaid</u> ymgynghori â'r corff dyfarnu sy'n derbyn gael i gadarnhau gofynion y fanyleb ac y rhoddir sylw i gynnwys priodol.

†Cyfle olaf i ymgeiswyr drosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol ardystiedig rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu.

Nid yw'r broses trosglwyddo credyd yn berthnasol i'r manylebau TAG Safon Uwch llinol newydd a gyflwynwyd i'w haddysgu am y tro cyntaf o 1 Medi 2015.



Joint Council for
Qualifications

Atodiad 2

Hen fanylebau TAG Safon Uwch unedol eraill

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr TAG UG sy'n trosglwyddo rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu hanner ffordd drwy hen gyrsiau TAG Safon Uwch unedol

Dylai canolfannau nodi nad yw'r wybodaeth am gydnawsedd rhwng manylebau neu gyrff dyfarnu yn gynhwysfawr. Nid yw'r holl bynciau wedi'u rhestru. Mae'n **rhaidd** i ganolfannau gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl am wybodaeth bellach. (Gweler manylion cyswllt y corff dyfarnu, **tudalen 5**).

Mae trosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol yn broses eithriadau cofrestru. Nid yw'n broses cofrestru awtomatig ac mae'n **rhaidd** gwneud cais bob amser i'r corff dyfarnu sy'n derbyn. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n bosibl gwneud trefniadau i drosglwyddo rhwng gyrff dyfarnu. Fodd bynnag, mae'n **rhaidd** i ganolfannau gyfeirio at yr adran 'Nodiadau'. **Mae'n rhaid gwneud cais i drosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol i'r corff dyfarnu sy'n derbyn erbyn 21 Hydref 2018 fan hwyraf i'r ymgeiswyr hynny sy'n ceisio ardystiad TAG Safon Uwch ym mis Mehefin 2019.**

Mae'n **rhaidd** i ganolfannau sicrhau bod yr unedau opsiynol, lle bo'n berthnasol, yn cael eu cofnodi ar ffurflen Trosglwyddo Credyd y CGC.

Nid yw'r broses trosglwyddo credyd yn berthnasol i'r manylebau TAG Safon Uwch llinol newydd a gyflwynwyd i'w haddysgu am y tro cyntaf o 1 Medi 2015 ymlaen. Ni ellir trosglwyddo manyleb TAG UG llinol newydd i hen fanyleb TAG Safon Uwch unedol.

D.S. Lle cyfeirir at fanylebau Edexcel, mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel manylebau Pearson Edexcel.

Pwnc	Cynigir gan	Trosglwyddo	Nodiadau
Cyfrifeg†	AQA ac OCR	Mae'r holl drosglwyddiadau'n dderbyniol	

Dylunio a Thechnoleg† (Technoleg Bwyd, Dylunio Cynnyrch – Dylunio 3D, Dylunio Cynnyrch – Tecstilau Systemau a Thechnoleg Rheoli)	AQA, Edexcel, OCR a CBAC	Mae'r holl drosglwyddiadau'n dderbyniol mewn egwyddor	D.S: Mae trosglwyddiadau'n bosibl rhwng opsiynau sy'n gyfwerth yn uniongyrchol yn unig. Mae'n rhaid i ymgeiswyr barhau â'r opsiwn cyfatebol. D.S: Nid yw OCR yn derbyn trosglwyddiadau o gyrff dyfarnu eraill mewn perthynas â TAG UG Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch gan nad yw'r manylebau'n cydweddu.
Astudiaethau Cyffredinol	AQA ac OCR	Mae'r holl drosglwyddiadau'n dderbyniol	
Daeareg†	OCR a CBAC	Mae'r holl drosglwyddiadau'n dderbyniol	
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth†	AQA, Edexcel, OCR a CBAC	Nid yw OCR yn derbyn CCEA ac Edexcel Nid yw CBAC yn derbyn trosglwyddiadau o AQA, CCEA, Edexcel ac OCR - Mae trosglwyddiadau eraill rhwng gyrff dyfarnu yn dderbyniol	Mae gan fanyleb UG CBAC uned unigryw orfodol 'Llywodraethu Cymru Fodern'.
Y Gyfraith†	AQA, OCR	Mae'r holl drosglwyddiadau'n dderbyniol	
Astudio'r Cyfryngau†	AQA, OCR a CBAC	Mae'r holl drosglwyddiadau'n dderbyniol	

†Cyfle olaf i ymgeiswyr drosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol ardystiedig rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu.
Nid yw'r broses trosglwyddo credyd yn berthnasol i'r manylebau TAG Safon Uwch llinol newydd a gyflwynwyd i'w haddysgu am y tro cyntaf o 1 Medi 2015.

© CGC 2018

**Cais i drosglwyddo hen ddyfarniad TAG UG unedol rhwng manylebau a/neu gyrff dyfarnu
(enghraifft o ffurflen wedi'i llenwi'n gywir)**

Dylech ddychwelyd y ffurflen cyn 21 Hydref yn ystod y flwyddyn academiaidd pan fyddwch yn ceisio ardystiad Safon Uwch. Mae'n rhaid llenwi pob rhan o'r ffurflen hon i osgoi oedi wrth brosesu eich cais.

Canolfan newydd

Rhif y Ganolfan	42719	Enw'r Ganolfan	Great Peter Street School
Rhif yr Ymgeisydd	3217	Enw'r Ymgeisydd	Colin Moore
Ardystiad Safon Uwch arfaethedig – Mis/Blwyddyn	Mehfin 2019	UCI Ymgeisydd	231470162416E
		Dyddiad Geni	10 Tachwedd 1999
Rheswm dros y cais	Ymgeisydd yn dychwelyd i astudio ar ôl blwyddyn fwlch, gan arwain at newid canolfan.		

I'w llenwi gan y ganolfan lle mae'r ymgeisydd bellach yn astudio. Mae'n rhaid i'r ganolfan newydd gadw UCI gwreiddiol yr ymgeisydd.

Manylion y dyfarniad Safon Uwch i'w ennill ac unedau U2 i'w hastudio, gan gynnwys unrhyw opsiynau (lle bo'n briodol)

Cod dyfarniad Safon Uwch a chodau uned U2	Enw'r dyfarniad Safon Uwch ac enwau'r unedau U2
6361	Mathemateg
MPC3	Craidd Pur 3
MPC4	Craidd Pur 4
MDO2	Mathemateg Penderfyniadau 2

Canolfan Flaenorol

Rhif y Ganolfan	23147	Enw'r Ganolfan	Stockton High School		
Rhif yr Ymgeisydd	2416	Corff Dyfarnu	Pearson	Dyddiad ardystio UG	Mehefin 2017

Manylion am y dyfarniad UG/unedau UG a gyflawnwyd eisoes, gan gynnwys unrhyw opsiynau (lle bo'n briodol)

Cod dyfarniad UG a chodau unedau UG	Enw'r dyfarniad UG ac enwau unedau UG
8371	Mathemateg
6663	Mathemateg Craidd 1
6664	Mathemateg Craidd 2
6689	Mathemateg Penderfyniadau 1

Manylion am unrhyw fwriad i ailsefyll unedau UG (os yn berthnasol)

Cod uned UG	Enw uned UG	Cyfes Arholiadau
6689	Mathemateg Penderfyniadau 1	Mehfin 2019

Datganiad gan yr ymgeisydd

Hyd eithaf fy ngwybodaeth mae'r wybodaeth a ddarparwyd uchod yn gywir. Rwy'n deall bod oedi'n bosibl i fy nghanlyniadau Safon Uwch os byddaf yn ailsefyll unrhyw unedau UG yn y gyfres yr wyf wedi fy nghofrestru ar ei chyfer i dderbyn ardystiad Safon Uwch.

Enw.....COLIN MOORE.....Llofnod yr ymgeisydd.....Colin Moore.....Dyddiad...06/10/18.

Datganiad gan y swyddog arholiadau

Hyd eithaf fy ngwybodaeth mae'r wybodaeth a ddarparwyd uchod yn gywir.

Enw.....JAN FROST.....Llofnod.....Jan Frost.....Dyddiad...06/10/18

Cyfeiriad e-bost: jfrost@qtpeterst.sch.uk.....Rhif cyswllt: 07985 999438